# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-22-08)

**Dyddiad : 14 Hydref 2008**
**Amser : 8.45am**
**Lleoliad : Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### Eitem 2: Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

### Eitem 2.1: Offerynnau sy’n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC201 - Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) a (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 29 Medi 2008. Fe’u gosodwyd ar 30 Medi 2008. Yn dod i rym ar 27 Hydref 2008.
Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986 ("Rheoliadau 1986”) a Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 ("Rheoliadau 1997”). Mae Rheoliadau 1986 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer trefnu gwasanaethau offthalmig cyffredinol o dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae Rheoliadau 1997 yn cynnwys darparu ar gyfer cynllun taliadau sydd i’w gwneud gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol trwy gyfrwng system dalebau mewn perthynas â chostau a dynnir gan gategorïau penodol o bersonau mewn cysylltiad â phrofion golwg, ac â chyflenwi, ailosod a thrwsio teclynnau optegol. Mae Rheoliad 2 o’r Rheoliadau hyn yn mewnosod diffiniad newydd yn Rheoliad 2 (1) i Reoliadau 1986 (dehongli) ac yn diwygio rheoliad 13 (cymhwystra ar gyfer profion golwg0 i ddarparu y bydd person sy’n cael lwfans cyflogi a chefnogi sy’n gysylltiedig ag incwm (neu aelod o deulu’r person honno) yn gymwys i gael prawf golwg y GIG. Mae Rheoliad 3 yn mewnosod diffiniad newydd yn rheoliad 1 (enwi, cychwyn a dehongli) i Reoliadau 1997 ac yn diwygio rheoliad 8 (cymhwystra - cyflenwi teclynnau optegol) i ddarparu y bydd person sy’n cael lwfans cyflogi a chefnogi sy’n gysylltiedig ag incwm (neu aelod o deulu’r person hwnnw) yn gymwys i gael taleb mewn perthynas â theclyn optegol.

SLC204 - Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 1 Hydref 2008. Fe’u gosodwyd ar 2 Hydref 2008. Yn dod i rym ar 27 Hydref 2008.
Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007 ("y prif Reoliadau”) drwy ddiwygio’r diffiniad o "teulu” yn y prif Reoliadau ac i ddarparu y bydd gan berson sy’n derbyn lwfans cyflogi a chefnogi sy’n gysylltiedig ag incwm hawl i gael ad-daliad llawn o daliad GIG a thaliad llawn o dreuliau teithio GIG heb fod angen iddo hawlio taliad neu ad-daliad o’r fath.

### Eitem 3: Unrhyw fater arall

### Eitem 4: Dyddiad y cyfarfod nesaf